**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 25.4.25</u>**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

Gwahoddwyd Mrs. Lilwen Humphreys i gyfarfod â'r Cyngor i ddiolch iddi am ei gwaith fel postfeistres a'i chyfraniadau i'r gymuned leol dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Ar ran y Cyngor cyflwynodd Iwan Pughe Jones dusw o flodau ac englyn gan Mr. Gwilym Fychan, a fframiwyd gan Aeron Pugh.

*I Lil ar ei hymddeoliad o'r Swyddfa Bost*

*Dy hunan a roddaist inni – yn anrheg*

*Hanner canrif 'leni*

*O enaid hael, yr wyt ti*

*Yn seren i'w thrysori.*

Mynegodd Mrs.Lilwen Humphreys ei diolch i'r Cyngor a'r gymuned ill ddau, gan ddweud mai ffordd o fyw yn hytrach na swydd oedd y gwaith iddi hi. Pob dymuniad da iddi ar ei hymddeoliad. Diolch i Gwenfair Rhys-Davies a Paul Hughes am ddarparu'r lluniaeth.

**19:799: Presennol:** Iwan Pughe Jones (Cadeirydd), Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, William Owen, Aeron Pughe, Gareth Wyn Jones, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gareth Owen, Elwyn Vaughan, Mrs. Lilwen Humphreys, Sandra Evans (Clerc)

**19:800: Ymddiheuriadau**: Huw Williams, Bedwyr Fychan, Dafydd Evans

**19:801: Materion Personol:** Dim

**19:802: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:803: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Chwefror 2025** Nodwyd y dylid cynnwys cerbydau o bob math yn hytrach na lorïau'n unig yn achosi perygl ger cylchfan Glantwymyn. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Gwenfair Rhys-Davies ac Aled Griffiths.

**19:804: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**19:805: Adroddiad y Clerc –**

**19:806: Cynllunio** -25/0287/FUL Gosod caban ar gyfer gwyliau, gwella mynedfa bresennol, ardal parcio, tanc septig uwchben Hendreseifion, Llanwrin, Machynlleth, Powys SY20 8QQ . Nodwyd mai cais ôl-weithredol oedd hwn gyda newidiadau man i'r fynedfa. Cefnogodd y Cyngor y cynnig.

**19:807: Materion ariannol ac eitemau i'w talu** ·

- Cyflog y Clerc Mis Mawrth (Mis 12) £290.70
- HMRC £518.80 (6.1.25-5.4.25) Holir am fanylion pellach o ran y cyfnod dan sylw gan Anne Pritchard WR Partners

Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gareth Wyn Jones.

• Gloversure (29254) £21.60 am adrodd gwall ar eu system. Nodwyd nad oedd hwn wedi'i dalu gan fod y mater yn cael ei ystyried o hyd, a bod Gloversure (29397) £51.60 – tâl blynyddol wedi cael ei dalu i gadw'r wefan yn hyfyw).

• Ffioedd Archwilio 2022/23 £879.00 Mae'r Cyngor wedi gofyn am fanylion pellach a dadansoddiad gan fod y swm yn uwch na'r ffi arferol.

**19:808: Adolygu cyflog y Clerc** Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad tan ar ôl cyfarfod rhwng y Clerc, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer gwerthusiad o waith y Clerc.

**19:809: Cyfrifon blynyddol** Fel yr uchod

**19:810: Gwefan y Cyngor:** Yn dilyn pryderon bod Gloversure yn codi tâl am wall ar y system. Penderfynwyd cael prisiau am ddarpariaeth well gan Gloversure a hefyd drafod gyda Huw Jones, Dinas Mawddwy.

**19:811: Gohebiaeth**

- Capel Cemaes- pryderon am ddyfodol y fynwent. Cysylltir â Mr. Edward Breeze i ofyn am fwy o wybodaeth i hwyluso penderfyniad y Cyngor e.e.cynllun a'r fynedfa. Cysylltir hefyd ag Un Llais Cymru am gyngor am y cyfrifoldebau cysylltiedig.
- Ysbyty Bronglais – Penderfynwyd cysylltu i fynegi gwrthwynebiad y Cyngor i newidiadau arfaethedig i Uned Strôc Bronglais drwy law'r ymgynghoriad ac ymateb i lythyr Lisa Francis.

**19:812: 'Green' Darowen** Gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.

**19:813: Biniau halen Darowen**. Penderfynwyd gwneud cais i Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt ar ran y gymuned.

**19:814: Adroddiadau'r Cynghorwyr– Elwyn Vaughan** Bydd Traed Bech Twymyn yn rhannu'r safle gydag Ysgol Feithrin Glantwymyn. Bydd cyfarfod i drafod y cyfalaf wythnos i Ddydd Gwener.

Mae'r her gyfreithiol yn erbyn Ambiwlans Awyr Cymru yn parhau. Bydd y gwaith ar y ffordd at y Fet a'r gweithdai y digwydd yn fuan ac yn cael ei flaenoriaethu gan Gyngor Sir Powys gan fod y gwaith yn Nhalerddig bron ar ben.

Disgwylir i'r tendrau gael eu dychwelyd yn fuan ar gyfer y gwaith ar safle Ysgol Bro Hyddgen.

**19:815: Ffyrdd a Phontydd**

- Ffordd rhwng Canolfan y Dechnoleg Amgen a Glandulas – coed yn hongian dros y ffordd – angen ei adrodd eto.
- Gwair wrth ochr y ffordd angen ei docio'n ddifrifol gan fod perygl i'r cyhoedd a defnyddwyr ffyrdd.e.e. rhwng Top y Grofft a phentref Glantwymyn, ac Abergwydol. Cysylltir â Chyngor Sir Powys a NMWTRA
- Nodwyd nad yw'r sietyn rhwng Glantwymyn a Chemaes yn cael ei thorri deirgwaith y flwyddyn yn ôl yr arfer. Dim ond unwaith ddigwyddodd hyn y llynedd.

**19:816: Unrhyw fater arall**

- Hysbysfyrddau mewn cyflwr gwael – layby Top y Grofft ac mewn layby rhwng Cemaes a Glantwymyn. Cysylltir ag Awi. Hysbysfwrdd Llanwrin yn cael ei drwsio cyn hir dan ofal William Owen.
- Lloches bysiau Llanwrin a meinciau'r ardal. Nodwyd bod neb wedi ymateb i'r hysbyseb am rywun i wneud y gwaith hwn, felly penderfynwyd mai Paul Hughes fydd yn gyfrifol am drwsio a gosod seddau newydd a William Owen a Gwylim Hughes fydd yn gyfrifol am drwsio lloches fysiau Llanwrin..
- Mainc gyhoeddus ar Green Llanwrin – Nodwyd bod pobl yn gadel ysbwriel wrth fwyta ar y fainc. Codir arwydd 'Dim ysbwriel' i atal hyn rhag digwydd eto. Cytunwyd yr uchod gan bawb.
- Adroddwyd i'rCcyngor bod Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru wedi cadw sŵn mawr oedd yn amharu ar y gymuned. Yn dilyn ymholiadau mae'n debyg mai gwaith cynnal a chadw hanfodol oedd hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.06yh. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 5ed o Fehefin yn lle ddiwedd Mai oherwydd Eisteddfod yr Urdd.

<u>Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 25.4.25</u>

Yn dilyn cais i osod biniau halen yn yr ardal penderfynwyd gosod 5 yn ardal Darowen, un yng Ngheinws ac un ym Mryn Cae Meilir, Ceinws. Bydd y biniau'n hanfodol er lles y gymuned i geisio sicrhau diogelwch plant a defnyddwyr ffyrdd. Cafwyd prisiau cystadleuol gan Tanks Direct. Archebir rhai tebyg i finiau Cyngor Sir Powys. Bydd y Cynghorwyr yn archilio biniau cyfredol Powys i benderfynu pa faint i'w archebu.

Penderfynwyd rhoi £250.00 tuag at dorri gwair mynwent Capel Cemaes.